**Newidiadau i brisiau prydau ysgol**

Os yw eich plentyn mewn ysgol uwchradd (ac eithrio Ysgol Maelor, Llannerch Banna), byddwch yn ymwybodol y bydd cost pryd ysgol yn cynyddu o £2.65 i £2.80. Bydd pris eitemau eraill ar y fwydlen yn destun cynnydd cyfatebol.

Dywedodd y Cyng. Phil Wynn, Aelod Arweiniol Addysg: "Tra bod prisiau prydau ysgol Uwchradd wedi aros yn ddigyfnewid ers Medi 2019 pan gynyddodd y pris o £2.40 i £2.45, fe adolygwyd y costiau ac fe godwyd y pris i £2.65 ym mis Medi 2023. Mae costiau wedi codi yn bellach, ac efo cylludeb heriol, mae hyn wedi golygu bydd gofyn codi pris prydiau ysgolion uwchradd i £2.80 o Ebrill 1 2024."

"Yn anffodus ni allwn fforddio amsugno'r cynnydd parhaus hwn mewn cost yn llawn. Mae'r cynnydd hwn mewn pris yn unol â chwyddiant, fodd bynnag rydym wedi ceisio diogelu disgyblion a rhieni yn erbyn effaith llawn costau cynyddol bwyd. Mae'r opsiwn "pryd y dydd" yn parhau i gynnig gwerth da am arian, a hyd yn oed ar ôl y cynnydd hwn mae pris pryd ysgol uwchradd yn Wrecsam yn parhau yn unol â rhai awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, os ydych chi'n cael trafferth talu costau eich cartref, ewch i dudalennau 'cymorth gyda chostau byw' Cyngor Wrecsam am gyngor ar unrhyw gymorth arall a allai fod ar gael i chi."